SFLSCM130

Monitro dosbarthu cyflenwadau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro dosbarthu cyflenwadau. Mae'n cynnwys cael gwybodaeth yn ymwneud â gofynion dosbarthu. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddi gwybodaeth, nodi problemau a rhoi canlyniadau'r dadansoddiad gydag argymhellion yn ymwneud â gofynion dosbarthu.

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr cadwyn gyflenwi. Gallai hyn fod, er enghraifft, mewn rolau prynu, gweithrediadau logisteg llwythi neu reoli trafnidiaeth.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. monitro dosbarthu **cyflenwadau** yn y **gadwyn gyflenwi**
2. cael gwybodaeth berthnasol ar ddosbarthu **cyflenwadau**
3. cydgrynhoi a pharatoi gwybodaeth am ddosbarthu **cyflenwadau** ar gyfer dadansoddi
4. dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth am ddosbarthu **cyflenwadau**
5. nodi ac ymdrin â phroblemau gyda dosbarthu **cyflenwadau**
6. rhoi'r canlyniadau monitro i **gydweithwyr** a gwneud argymhellion
7. cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol ar gyfer dosbarthu **cyflenwadau**
8. cyfathrebu gyda chydweithwyr yn y **gadwyn gyflenwi** trwy gydol y broses fonitro

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. nodau strategol, amcanion a gweithgareddau eich sefydliad mewn perthynas â dosbarthu **cyflenwadau**
2. damcaniaethau, modelau ac arferion rheoli **cadwyn gyflenwi**
3. ffynonellau gwybodaeth eich sefydliad ar brosesau **cadwyn gyflenwi**
4. damcaniaethau, modelau ac arferion logisteg
5. sut i fonitro dosbarthu **cyflenwadau**
6. sut i gael a dadansoddi gwybodaeth am ddosbarthu **cyflenwadau**
7. dulliau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer gwerthuso gwybodaeth am ddosbarthu **cyflenwadau**
8. damcaniaethau, modelau ac arferion meincnodi a mesur perfformiad
9. problemau a all ddigwydd wrth ddosbarthu **cyflenwadau** a sut i ymdrin â nhw
10. damcaniaethau, modelau ac arferion cyflwyno
11. y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan eich sefydliad chi
12. y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol ar gyfer dosbarthu **cyflenwadau**

Geirfa

Cadwyn gyflenwi: caffaeliad, prynu a chyflenwi, logisteg, trafnidiaeth, a rheoli gweithrediadau, o fewn a rhwng ffiniau rhyngwladol

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

Cyflenwadau: unrhyw gyfuniad o nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu caffael, eu dosbarthu neu eu storio yn y gadwyn gyflenwi

Monitro dosbarthu cyflenwadau

Datblygwyd gan	Skills for Logistics
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2018
Indicative Review Date	Ionawr 2023
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Logisitics
RCU gwreiddiol	SFLSCM130
Galwedigaethau perthnasol	Manwerthu a chyfanwerthu ; Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Rheoli Cadwyn Gyflenwi
Geiriau Allweddol	dosbarthu; monitro; cyflenwadau; trafnidiaeth; cadwyn gyflenwi